

Merched y Wawr - Llannau'r Tywi - Ebrill 2019

Neuadd Llangynog oedd lleoliad ein cyfarfod ym mis Ebrill. Croesawyd canghennau San Clêr a Bro Gwili i fwynhau noson yng nghwmni Richard Rees, Cyfarwyddwr cwmni teledu Telesgop.

Cyflwynodd Mair Griffiths y gŵr gwadd fel un o DJ's cyntaf Radio Cymru. Yn ogystal â chyfarwyddo a chynhyrchu rhaglenni mae'n dal i droelli'r disgiau ar ei rhaglen radio bob bore Sul. Byd natur yw ei brif ddiddordeb ac yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae wedi bod yn ffilmio'r afon Tywi i ddangos y newidiadau tymhorol sydd i'w weld dros y flwyddyn. Mae'r ffilm 'Yr Afon Dywyll' yn dilyn taith y Tywi, 80 milltir o hyd, o bentrefi Llansteffan a Glan y Fferi yn aber Bae Caerfyrddin, nôl i'w tharddiad yn y mynyddoedd uwchben Llyn Brianne.

Wrth wyllo'r ffilm gwelwyd y bywyd gwyllt cyfoethog, megis morloi, moch daear, gwyddau gwylltion, llyswennod pengoch y môr, dyfrgwn a eogiaid i enwi ond rhai. Braf oedd clywed pysgotwyr a ffermwyr sy'n byw ac yn gweithio ar lannau'r afon yn rhoi eu barn am bwysigrwydd yr afon iddynt ac am eu pryderon ynghylch y llygredd sy'n llifo iddi.

Ar ddiwedd y ffilm, cawsom gyfle i holi'r cynhyrchydd am yr heriau i wneud ffilm o'r fath. Diolchodd Enid Howells iddo am greu cofnod pwysig a gwerthfawr o'r afon a'i chynefin, am y gwaith camera gwych ac am yr amynedd amlwg sydd angen pan yn ffilmio anifeiliaid ac adar yn y gwyllt.

Ar ddiwedd y noson, cafwyd amser i gymdeithasu a mwynhau lluniaeth ysgafn oedd wedi cael eu baratoi gan yr aelodau.